# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2019/20

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd:** Glyn Haynes
**Parti:** Caergybi **Ward:** Caergybi

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| **Rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **Crynodeb o Bresenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | Cofnod Presenoldeb |
| Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) | |
| Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | |
| Pwyllgor Grantiau Cyffredinol | |
| Pwyllgor Penodiadau | |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | |
| Pwyllgor Trwyddedu | |
| Ymddiriedolaeath Elusennol Ynys Môn | |
| Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

| Corff allanol | Crynodeb o rôl a chyfraniad |
|---|---|
| - Cyngor Iechyd Gogledd Cymru (Pwyllgor Lleol Môn) | Cyngor Iechyd Cymunedol – Dyma'r llais annibynnol ar gyfer pobl yng Nghymru sy'n defnyddio Gwasanaethau'r GIG. Rydym yn gweithredu er mwyn gwarchod y cyhoedd drwy fynychu cyfarfodydd |

| | |
|---|---|
| | misol a cyfarfodydd chwarterol a drwy adrodd yn ôl ar ymweliadau ag ysbytai, meddygfeydd a sefydliadau eraill. |
| - Llywodraethwr / Ysgol Gynradd Llanfawr, Caergybi | Ysgol Gynradd Llanfawr – Rwy'n chwarae rôl actif fel Llywodraethwr Ysgol gan fynychu cyfarfodydd, cyfweld staff newydd a gweithio fel cyswllt rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol. |

**2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Rydw i wedi mynychu'r holl gyfarfodydd cyhoeddus yr ydw i wedi cael gwahoddiad iddynt ac yn enwedig mewn perthynas â phryderon trigolion. Pan fydd rhywun yn cysylltu â mi byddaf yn gwneud fy ngorau i gyfarfod â'r etholwr wyneb yn wyneb lle bo hynny'n bosibl yn hytrach na drwy e-bost neu dros y ffôn. Rwy'n hoffi ffurfio agwedd o gydweithio gyda fy nghyd-gynghorwyr a hynny yn fy ward fy hun ac eraill. Rwy'n ceisio cael yn ôl i etholwyr gydag ateb bob amser a hoffwn feddwl bod hynny ag ateb ffafriol yn y mwyafrif o achosion. Mae tipio sbwriel yn anghyfreithlon wedi dod yn broblem yn ein cymuned a byddaf bob amser yn rhagweithiol wrth ddatrys y materion hyn.

Rydw i wedi mynychu cyfarfodydd yn Morswyn ac er nad yw'n rhan o fy Ward rydw i wedi gweithio'n rhagweithiol â chynghorwyr eraill er mwyn ceisio cadw gwasanaethau yng Nghaergybi yn ystod yr ailstrwythuro sy'n digwydd.

Rydw i hefyd wedi mynychu cyfarfodydd gyda Chymunedau'n Gyntaf Môn, trigolion a'r heddlu er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghaergybi.

Ynghyd a fy nghyd gynghorwyr fe fynychais weithdy Comisiwn Tegwch yn Llangefni a drefnwyd gan Menter Môn ac rwy'n chwarae rôl actif mewn ceisio cael un wedi'i sefydlu ar yr Ynys.

Rydw i hefyd wedi gweithio â Menter Môn a chyd-gynghorwyr er mwyn dod â'r trên ar y tir i Gaergybi, rhywbeth oedd yn llwyddiant ysgubol.

Rydw i hefyd yn Gynghorydd Tref ar gyfer Ward Llaingoch, Caergybi.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rydw i wedi mynychu nifer o sesiynau briffio dros y blynyddoedd, yn enwedig mewn perthynas â phrosiectau fel Orthios, Minesto a Morlais a fydd gyda lwc yn denu swyddi o safon i'r Ynys drwy ddefnyddio technoleg o'r safon gorau yn y byd.

Lle bo hynny'n bosibl, byddaf hefyd yn defnyddio fy ngwybodaeth undebau llafur a fy nghysylltiadau er mwyn dod ag agwedd o bartneriaeth i bethau.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn): Hyfforddiant

**5 - Gweithgareddau a Materion Eraill**

Cefais fy ethol yn Is-gadeirydd y Cyngor Sir ym Mai 2019. Fel rhan o'r rôl honno rydw i wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau a seremonïau, i enwi dim ond rhai:

- Derbyniad ar HMS St Albans
- Seremoni Rhyddid Caergybi ar gyfer y Gwasanaeth Llongau Tanddwr
- Seremoni 'Jigs Up' er mwyn cofio'r aberth a wnaed gan y criw yn yr Ail Ryfel Byd
- Sioe Môn
- Seremoni wobrwyo Ymddiriedolaeth John Egging yng Nghanolfan Ucheldre
- Derbyniad yn Llu Awyr Brenhinol Y Fali
- 200 Mlwyddiant Pont Menai
- Ras Fynydd Parc y Morglawdd
- Ras Ring o' Fire Môn
- Ordeinio gweinidog newydd yn Eglwys San Cybi, Caergybi
- Saliwt Gynau Brenhinol yng Nghaernarfon
- Gwasanaeth Sul y Cadeirydd ym Moelfre
- Seremoni Maes Coffa San Cybi
- Seremoni Sul y Cofio

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma: Cynghorydd Glyn Haynes

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd Glyn Haynes** | **Mehefin 2020** |